CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3708 (Cy.304 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 ("Rheoliadau 1989") mewn perthynas â Chymru.

Diwygir Rheoliad 4 o Reoliadau 1989 er mwyn tynnu'r cyfeiriad at ysgol a gynhelir â grant (sef categori o ysgol nad yw'n bod mwyach).

Diddymir Rheoliad 8 fel nad oes gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mwyach gymeradwyo darparu tir ac adeiladau newydd sy'n golygu gwaith adeiladu neu newidiadau i dir ac adeiladau presennol mewn ysgol, sefydliad addysg bellach neu uwch neu hostel ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r diddymiad yn tynnu'r angen am gymeradwyaeth o dan y Rheoliadau yn unig ac nid yr angen am unrhyw gymeradwyaeth neu gydsyniad arall o dan unrhyw ddeddfiad arall.

Gwnaed diwygiadau tebyg ar gyfer Lloegr gan Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Lloegr) 2001 (O.S. 2001/692).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3708 (W. 304)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulation)*

These Regulations amend the Education (Schools and Further and Higher Education) Regulations 1989 ("the 1989 Regulations") in relation to Wales.

Regulation 4 of the 1989 Regulations is amended to remove the reference to a grant maintained school (a category of school which no longer exists).

Regulation 8 is revoked so that there is no longer a requirement for the National Assembly for Wales to approve the provision of new premises involving building work or alterations to existing premises at a school, further or higher education institution or a hostel for pupils with special educational needs.

The revocation only removes the need for approval under the Regulations and not the need for any approval or consent under any other enactment.

Similar amendments were made for England by the Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (England) Regulations 2001 (S.I. 2001/692).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3708 (Cy.304)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *15 Tachwedd 2001* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(7) a 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**a**) ac adrannau 544 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**b**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad(**c**).

**1**. -(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2002.

(2) Maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

**2**. Diwygir Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989(**ch**) fel a ganlyn -

(a) yn rheoliad 4(1)(a) yn lle'r geiriau ", a special school not so maintained or a grant-maintained school" rhowch y geiriau "or a special school not so maintained"; a

(b) diddymir rheoliad 8.

(a) 1988 p.40. Diwygiwyd adran 218(7) gan Ddeddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 38, Rhan I. Diwygiwyd adran 232(6) gan adran 14(4) o Ddeddf Addysg 1994 (p.30).

(b) 1996 p. 56; diwygiwyd adran 544 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), Atodlen 30, paragraff 160. I gael y diffiniad o "regulations" *gweler* adran 579(1).

(c) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(ch) O.S. 1989/351, fel y'i diwygiwyd mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2001/692. Mae'r Rheoliadau yn parhau i fod yn effeithiol (mewn perthynas â Chymru) yn rhinwedd paragraff 1 o Atodlen 39 i Ddeddf Addysg 1996.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3708 (W.304)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *15th November 2001* |
| *Coming into force* | *1st January 2002* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 218(7) and 232(5) and (6) of the Education Reform Act 1988(**a**) and sections 544 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**b**) and now vested in the Assembly(**c**).

**1**.-(1) These Regulations are called the Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st January 2002.

**2**. They apply only in relation to Wales.

**3**. The Education (Schools and Further and Higher Education) Regulations 1989(**d**) shall be amended as follows -

(a) in regulation 4(1)(a) for the words ", a special school not so maintained or a grant-maintained school" substitute the words "or a special school not so maintained"; and

(b) regulation 8 shall be revoked.

(a) 1988 c.40. Section 218(7) was amended by the Education Act 1996 (c. 56), Schedule 38, Part I. Section 232(6) was amended by section 14(4) of the Education Act 1994 (c.30).

(b) 1996 c. 56; section 544 was amended by the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31), Schedule 30, paragraph 160. For the definition of "regulations" *see* section 579(1).

(c) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(d) S.I. 1989/351, as amended in relation to England by S.I. 2001/692. The Regulations continue to have effect (in relation to Wales) by virtue of paragraph 1 of Schedule 39 to the Education Act 1996.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

15 Tachwedd 2001

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

15th November 2001

*John Marek*

Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3708 (Cy.304)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3708 (W.304)

## EDUCATION, WALES

The Education (Schools and Further and Higher Education) (Amendment) (Wales) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090375-7

9 780110 903750

**£1.75**

W390/12/01 ON